Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, 26ain Tachwedd, 2008 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Julia Jones, Cyng Roy Davies, Cyng Christopher Parish, Cyng Dawn Wallace, Cyng Ros Bellamy, Cyng Hugh Towns, Cyng Ieuan Gwyn
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau : Cyng Fran Murphy, Cyng Richard Wallace.

Arweiniodd y Maer Cyng Edward Thomas deyrnged i'r Arglwydd Dinefwr a fu farw ar Dachwedd y 12fed, cafwyd munud o dawelwch.

Materion yr Heddlu : Dywedodd PC Vernon Thomas fod yna ddau ddigwyddiad o ddifrod i gerbydau yn y prif faes parcio. Cafwyd 1 adroddiad o drosedd gyffredin ac mae ymholiadau i hyn yn parhau, yn ogystal ag 1 drosedd o feddu ar gyffuriau a reolir. Canfuwyd y drosedd gyffuriau hon gan Blismon ar droed ym Mharc le Conquet.
Cynigiodd y Cyng Chris Parish ddiolch am y cymorth a dderbyniwyd gan yr Heddlu yn ystod yr arddangosfa Tân Gwyllt a'r achlysur o gynau'r goleuadau Nadolig.

Cof 190 / Tachwedd /08 Adroddiad y Cynghorydd Sir.
Estynnodd y Cynghorydd Sir wahoddiad i unrhyw aelod o'r Cyngor fynychu cyfarfod safle i drafod safle pafiliwn newydd ym Mharc le Conquet. Mae'r gwaith o adnewyddu'r llyfrgell, cost o £82,000, yn dod ymlaen yn dda. Mae cynlluniau ar gyfer gosod ystafell ffitrwydd yn Ysgol Tre-gib bellach ar y gweill.
Bydd y Cyngor Sir yn cynnal cyfarfod ymgynghori mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystod y cyfarfodydd Rhwydwaith Cymunedol ym mis Chwefror 2009.
Mae'r gwaith o werthu'r Hen Neuadd Farchnad ar waith a grŵp Morgans yw'r prif bartner.

Cof 191/ Tachwedd/ 08 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Hydref 22ain, 2008 fel cofnod cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater.
Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Tachwedd 11eg, 2008 fel cofnod cywir ac fe'u hargymhellwyd i'w derbyn.

Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Tachwedd 11eg, 2008 fel cofnod cywir a'u hargymell i'w derbyn. Cynigiwyd hyn gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 192/ Tachwedd / 08 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Parth. Cof 182/ Tachwedd/ 08 Diolchodd y Maer i bawb a fynychodd y gwaith o blannu perllan yn Ysgol Gynradd Llandeilo. Dylai'r Ysgol fod yn falch o'i hymdrechion.
Parth. Cof 187 / Tachwedd /08. Adroddodd y Swyddog Cyllid ei fod wedi cysylltu â'r cwmni yswiriant a ddywedodd y dylai holl gynnwys y garej gael ei glustnodi a bydd yr eitemau hyn yn dod o dan y polisi fel eitemau a gedwir yn ardal cod post SA19.
Hefyd dywedodd Mr Plummer y gellid newid dyddiad adnewyddu'r polisïau yswiriant er mwyn osgoi'r digwyddiadau a gynhelir ym mis Tachwedd a Rhagfyr gan eu bod mor agos at y dyddiad adnewyddu presennol.
Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylid adnewyddu'r polisi yswiriant ym mis Medi.
Eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 193 / Tachwedd / 08 Gohebiaeth sydd angen ei ateb

1. Mr Gerald Jones parth. camgymeriadau yn Llyfryn Tywys Llandeilo a gynhyrchir gan y Western Mail

Arwyddodd y Cyng Julia Jones y llyfr datgan diddordeb, a gadawodd y siambr tra trafodwyd y mater.

Roedd y Cynghorwyr yn siomedig iawn gyda'r gwaith golygu gwael. Roedd y Cyngor yn hapus gyda modd y cyflwynwyd y daflen a'r manylion ffeithiol, a fyddai o gymorth i ymwelwyr. Fodd bynnag roeddynt yn cytuno gyda llawer o'r sylwadau a wnaed gan Mr Jones. Y Clerc i ysgrifennu at olygydd y Western Mail i fynegi'r pryderon a drafodwyd. Yr unig fewnbwn a gafodd y Cyngor oedd darparu manylion cysylltiadau lleol, y rhan hanesyddol/treftadaeth a ysgrifennwyd gan Mr Gwilym Hughes a hefyd cyflwyniad y Maer. Doedd neb wedi gofyn i'r Cyngor a oedd unrhyw un o'r erthyglau a argraffwyd yn addas neu a oeddynt yn wir yn cynrychioli barn y Cyngor. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Phil Williams, CSC parth. adborth o'r cynllun ailgylchu. Nodwyd
3. Lorna Rideout, copi o lythyr a anfonwyd at Wasanaethau Tai CSC parth. anghyfleustra i drigolion ardal Banc y Gogledd. Adroddodd y Cyng Richard Wallace a'r Cyng Dawn Wallace am broblemau parthed sbwriel ac ymddygiad afreolus i CSC. Gofynnwyd i'r Clerc hefyd anfon llythyr a ffotograffau at y Cyngor Sir ynglŷn â'r problemau ar Ystâd Tai Cyngor Bro Hywel. Copi hefyd i'w anfon at y Cynghorydd Sir Ieuan Jones a Rhingyll yr Heddlu Ian Price.
4. B.Tilley parth. y rhandiroedd (allotment) sydd ar gael yn ardal y Dref. Bydd y Cyng Ros Bellamy yn trafod hyn gyda Ms Tilley.
5. Clee, Tompkinson & Francis. Adroddiad o'r gwaith prisio a wnaed ar Neuadd y Sir. Derbyniwyd y prisiad a bydd yn cael ei gynnwys yn y gofrestr asedau. Trosglwyddir yr anfoneb am wneud y gwaith prisio i'r Pwyllgor Cyllid.
6. Kate Meakin, Fforwm Masnach Deg Cymru. Cynnig o gymorth i annog Llandeilo i weithio tuag at fod yn Dref Masnach Deg.
   Y Clerc i anfon gohebiaeth ymlaen at y Siambr Fasnach a Grŵp Trawsnewid y Dref.

7. Dr G.G.Vernon parth. diffyg Cymraeg yn y cyhoeddiadau a wnaed yn ystod yr Arddangosfa Tân Gwyllt. Y Clerc i ateb, gan nodi eu bod yn cytuno y gellid bod wedi gwneud mwy o gyhoeddiadau yn y Gymraeg, roedd y Maer mewn gwirionedd wedi dechrau ei anerchiad trwy groesawu pawb yn Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi gwneud ymdrech bendant i fod yn hollol ddwyieithog ac yn ddiweddar meant wedi diwygio eu Polisi Iaith Gymraeg.
8. MWTRA- ateb i bryderon a fynegwyd parthed cyflwr cylchfan yr A40 ym mhen draw Heol Rhosmaen. Y Clerc i ysgrifennu at CSC sy'n gyfrifol am ei chynnal a'i chadw.
9. Cyngor Bro Dyffryn Cennen yn awgrymu cynnal cyfarfod ar y cyd gyda Adam Price a Rhodri Glyn Thomas. Y Clerc i gynnig eitemau ar gyfer yr agenda a dyddiad yn ystod mis Ionawr sy'n gyfleus i'r ddau Gyngor. Rhaid cytuno hefyd ar gynnal cyfarfod ar y cyd i drafod y Còd Ymddygiad.
10. Emyr John, Swyddog Grantiau CSC, yn gofyn am fanylion y llithriant Ariannol sydd wedi digwydd parthed y gwaith prosiect ar Neuadd y Sir. Bydd y Swyddog Cyllid yn rhoi'r manylion.
11. Safonau Masnach CSC yn adrodd ar eiddo sydd wedi'i gosbi am werthu alcohol i rai o dan oed. Nodwyd.
12. Clwb Pêl-droed Teigrod Teilo. Prinder caeau chwarae yn Llandeilo. Clerc i ysgrifennu, gan gefnogi eu cais am y ddarpariaeth, at Ian Jones, Pennaeth Hamdden CSC.

Cof 194/ Tachwedd/ 08 Gohebiaeth er gwybodaeth.

1. Catherine Evans CSC- ateb i gŵyn mewn perthynas â'r sbwriel sydd wrth y swyddfeydd yn Heol Cilgant. Addewid y bydd camau'n cael eu cymryd. Nodwyd.
2. MC Towns, Geidiaid Llandeilo – llythyr diolch i'r Maer am eu cefnogaeth yn y CBC a'r rhodd. Nodwyd.
3. Adroddiad Blynyddol Cymorth i Ferched Dyffryn Aman. Nodwyd.
4. Cynllun Lleihau Risg Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Nodwyd.
5. Adroddiad Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Canlyniadau Etholiad Mai 20. Nodwyd.
6. Cofrestru enwau eiddo yn 11, Pencrug a 21C, Heol Newydd, Nodwyd.

Cof 195 / Tachwedd /08 Materion Ariannol.

1 Anfonebau i'w Talu

WCVA (gweinyddiaeth – Tachwedd)	£	35.54
WCVA (cyflogau – Tachwedd)	£	465.67
Iwmyn Ceffylau Cymru (Parêd 10.9.08)	£	470.00
Konica Minolta (llungopïwr)	£	11.30
Festive lighting (Goleuadau Nadolig)	£	1,227.87
Des Davies (deunyddiau)	£	10.06

Penderfynwyd talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Materion Ariannol Eraill

i) Goblygiadau ariannol ar gyfer prosiectau arfaethedig 2009-10
Cafwyd trafodaethau parthed prosiectau posib ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ymysg y rheini sydd i'w hystyried yng nghyfarfod Cyllideb y Pwyllgor Cyllid y mae a) Carnifal y Dref, b) Cyfieithiadau taflenni Treftadaeth y Dref,
c) Gatiau/seddi/placiau Parc Penlan.

Cof 196 / Tachwedd / 08 Doedd yna ddim materion Cludiant a Phriffyrdd

Cof 197 / Tachwedd / 08 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Roedd Mr Davies wedi dosbarthu adroddiad cynhwysfawr ar yr arddangosfa Tân Gwyllt a gynhaliwyd ar Dachwedd y 7fed. Roedd wedi cynnwys deg argymhelliad i'w hystyried gan yr is-grŵp Tân Gwyllt a gynhelir pan fydd y gwaith o gynllunio'r digwyddiad ar gyfer y flwyddyn nesaf ar waith. Ystyrir yr argymhellion gan y Cyngor Llawn.
Hefyd dosbarthodd Mr Davies adroddiad yn delio gyda gwaith cynnal a chadw ar Neuadd y Sir. Mae'r gwaith o wella blaen Neuadd y Sir bellach wedi'i gwblhau. Mae'r gwaith ar system foiler Neuadd y Sir hefyd wedi'i gwblhau.

Cof 198/ Tachwedd / 08 Y Drefn Gwynion
Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Cyngor fabwysiadu Polisi'r Drefn Gwynion. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 199 / Tachwedd / 08 Cyfrif Treuliau'r Maer.
Gofynnodd y Cadeirydd Cyllid, Cyng Ros Bellamy i'r eitem hon gael ei chyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid am drafodaeth bellach. Roedd pawb yn gytûn.

Cof 200 / Tachwedd / 08 Adroddiad y Maer.
Rhoddodd y Cyng Edward Thomas adroddiad ar y digwyddiadau y mynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis. Diolchodd i bawb a gynorthwyodd gyda'r Arddangosfa Tân Gwyllt, yn arbennig y rheini a gynorthwyodd gyda'r gwaith glanhau ar y bore Sadwrn. Roedd yn ddymuniad gan y Cyng Thomas i ddiolch i'r Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater am ei holl waith caled yn trefnu taith gerdded mor llwyddiannus er budd Elusennau Clefyd y Siwgr. Roedd hefyd am longyfarch pwyllgor Gŵyl y Synhwyrau am eu holl waith yn trefnu digwyddiadau'r wythnos. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at y Siambr Fasnach yn mynegi diolch y Cyngor.
Diolchodd y Maer i bawb a gefnogodd Gwasanaeth Sul y Cofio.

Cof 201 / Tachwedd/ 08 Adroddiadau Eraill

1 Yr Is-grŵp Tân Gwyllt
Dosbarthodd y Cyng Chris Parish adroddiad ar ddigwyddiad llwyddiannus eleni. Gofynnodd am lythyron o ddiolch gael eu hanfon at Mr Geraint Price, Ymladdwyr Tân Ifanc, Mr Alan Thomas, Cadeirydd RFC Llandeilo, Ambiwlans St Ioan a'r Ford Gron. Roedd pawb o blaid.

2. Is-grŵp Goleuadau Nadolig.
Dosbarthodd y Cyng Chris Parish adroddiad ar achlysur cynnau'r goleuadau Nadolig ddydd Gwener, Tachwedd 21ain. Daeth torf fawr i fwynhau'r adloniant a gyflwynwyd gan Gôr Sainteilo a Band Arian Rhydaman.

3. Is-grŵp Neuadd y Sir.
Adroddodd y Cyng Colin Jenkins ar y cyfarfod a gafodd gyda Mr Ken Murphy o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed mewn perthynas â chytuno ar gyfrifoldebau cynnal a chadw Neuadd y Sir yn y dyfodol. Roedd y Swyddog Technegol wedi cyflwyno dogfen ddrafft y bydd y Cyng Jenkins yn ei thrafod gyda'r Clerc cyn y cyfarfod nesaf gyda'r Ymddiriedolaeth.

Cof 202 / Tachwedd /08 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Estynnodd y Maer wahoddiad i'r achlysur i ddathlu'r Nadolig ar Ragfyr 13eg.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40pm